# Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

**2019 dccc 3**

## RHAN 5

YMCHWILIO I GWYNION SY'N YMWNEUD Â PHERSONAU ERAILL: GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL

*Dehongli*

### 62 Ystyr "cartref gofal" a "darparwr cartref gofal"

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ystyr "cartref gofal" yw mangre lle y mae gwasanaeth cartref gofal, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 (dccc 2), yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i bersonau 18 oed neu hŷn.

(3) Ystyr "darparwr cartref gofal" yw person sy'n ddarparwr gwasanaeth cartref gofal, o fewn ystyr Rhan 1 o'r Ddeddf honno, lle y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i bersonau 18 oed neu hŷn.

(4) Mae camau gweithredu i gael eu trin yn gamau gweithredu a gymerir gan ddarparwr cartref gofal os ydynt yn cael eu cymryd gan—

- (a) person a gyflogir gan y darparwr hwnnw,
- (b) person sy'n gweithredu ar ran y darparwr hwnnw, neu
- (c) person y mae'r darparwr hwnnw wedi dirprwyo unrhyw swyddogaethau iddo.

(5) Hefyd, mae camau gweithredu i gael eu trin yn gamau gweithredu a gymerir gan ddarparwr cartref gofal—

- (a) os yw'r darparwr hwnnw'n darparu, drwy gyfrwng trefniant gyda pherson arall, lety, gofal nyrsio neu ofal mewn cartref gofal yng Nghymru ar gyfer unigolyn oherwydd hyglwyfedd neu angen yr unigolyn hwnnw, a

(b) os yw’r camau gweithredu yn cael eu cymryd gan y person arall neu ar ran y person arall wrth roi’r trefniant ar waith.

(6) Mae i “gofal” yr ystyr a roddir yn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 (dccc 2).

## 63 Ystyr “gofal cartref” a “darparwr gofal cartref”

(1) Mae’r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ystyr “gofal cartref” yw gofal personol a ddarperir yn eu cartrefi eu hunain i bersonau sydd, oherwydd salwch, gwendid neu anabledd, yn methu â’i ddarparu drostynt eu hunain heb gymorth.

(3) Ystyr “darparwr gofal cartref” yw person sy’n cyflawni gweithgaredd sy’n ymwneud â darparu gofal cartref, ond nid yw’n cynnwys unigolyn—

(a) sydd yn cyflawni’r gweithgaredd heblaw mewn partneriaeth ag eraill,

(b) nad yw’n cael ei gyflogi gan gorff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig i’w gyflawni,

(c) nad yw’n cyflogi unrhyw berson arall i gyflawni’r gweithgaredd, a

(d) sydd yn darparu neu’n trefnu i ddarparu gofal cartref i lai na phedwar o bobl.

(4) Mae camau gweithredu i gael eu trin yn gamau gweithredu a gymerir gan ddarparwr gofal cartref os ydynt yn cael eu cymryd gan—

(a) person a gyflogir gan y darparwr hwnnw,

(b) person sy’n gweithredu ar ran y darparwr hwnnw, neu

(c) person y mae’r darparwr hwnnw wedi dirprwyo unrhyw swyddogaethau iddo.

(5) Hefyd, mae camau gweithredu i gael eu trin yn gamau gweithredu a gymerir gan ddarparwr gofal cartref—

(a) os yw’r darparwr hwnnw yn darparu gofal cartref drwy drefniant gyda pherson arall, a

(b) os yw’r camau gweithredu yn cael eu cymryd gan y person arall neu ar ran y person arall wrth roi’r trefniant ar waith.

## 64 Ystyr “gwasanaeth gofal lliniarol” a “darparwr gofal lliniarol annibynnol”

(1) Mae’r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ystyr “gwasanaeth gofal lliniarol” yw gwasanaeth sydd â’r prif bwrpas o ddarparu gofal lliniarol.

(3) Ystyr “darparwr gofal lliniarol annibynnol” yw person—

(a) sydd yn darparu gwasanaeth gofal lliniarol, a

(b) nad yw’n gorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

(4) Mae camau gweithredu i gael eu trin yn gamau gweithredu a gymerir gan ddarparwr gofal lliniarol annibynnol os ydynt yn cael eu cymryd gan—

(a) person a gyflogir gan y darparwr hwnnw,

(b) person sy’n gweithredu ar ran y darparwr hwnnw, neu

(c) person y mae’r darparwr hwnnw wedi dirprwyo unrhyw swyddogaethau iddo.

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

(5) Hefyd, mae camau gweithredu i gael eu trin yn gamau gweithredu a gymerir gan ddarparwr gofal lliniarol annibynnol—

(a) os yw'r darparwr hwnnw yn darparu gofal lliniarol drwy drefniant gyda pherson arall, a

(b) os yw'r camau gweithredu yn cael eu cymryd gan y person arall neu ar ran y person arall wrth roi'r trefniant ar waith.